

# Cymeriadau Difyr



| | |
|---|---|
| Llyfr: | **Pedr Pedwar (4)** |
| Adnoddau: | • Cardiau ar gyfer gêm - *gweler y ddogfen 'Pedr Pedwar – gêm'*.<br>• Tua 200+ cownter / peli pompom / deunydd tebyg addas.<br>• Dis ar-lein sy'n gallu taflu rhifau 0-10, e.e. https://ieithgar.cymru /www.mathsstarters.net/ / www.online-stopwatch.com / www.calculator.net |
| Camau: | Yn y llyfr 'Cymeriadau Difyr: Pedr Pedwar', mae Pedr Pedwar wrth ei fodd yn chwarae gemau gyda'i ffrindiau. Beth am chwarae'r gêm yma i'r dysgwyr gael ymarfer rhifau 0-10 gyda'u ffrindiau?<br><br>Dechreuwch drwy ymarfer sgiliau cyfri'r dysgwyr gan ddefnyddio'r cownteri / peli pompom. Rhowch rif penodol ohonynt yn eich llaw, a holwch y dysgwyr yn unigol sawl un sydd yn eich llaw. Yna cyfrwch nhw ar y cyd fel grŵp.<br><br>**Cam 1**<br>Gosodwch gardiau unigol o flaen y dysgwyr – gweler y ddogfen *'Pedr Pedwar – gêm'*. Ymarferwch adnabyddiaeth rhif yn gyntaf trwy bwyntio at / codi cerdyn penodol a holi pa rif sydd ar y cerdyn. Cyfrwch y smotiau ar y cardiau gyda nhw.<br><br>**Cam 2**<br>Rhowch y cownteri / peli pompom i gyd ar y bwrdd o flaen y dysgwyr fel ei bod hi'n hawdd iddynt eu hymestyn.<br><br>**Cam 3**<br>Defnyddiwch un o'r gwefannau uchod i 'daflu dis' rhif rhwng 0 a 10. Pa bynnag rif fydd yn glanio, mae angen i'r dysgwyr gyfri nifer y cownteri / peli pompom yn gywir, gan eu gosod ar y smotiau ar y cerdyn cywir.<br><br>Cam 4 - Daliwch ati i 'daflu'r' dis tan fod bob un cerdyn wedi ei lenwi. |
| Cwestiynu: | Sawl cownter / pêl pompom sy yma?<br>Allwch chi eu cyfri gyda fi?<br>Pa rif ydy hwn?<br>Beth am i ni gyfri'r cownteri / peli pompom gyda'n gilydd?<br>Pa rif ydych chi wedi ei gael?<br>Pa rif(au) sydd ar ôl?<br>Pa rif ydy hwn?<br>Fedri di gyfri'r smotiau? |





| | |
|---|---|
| Beth nesaf? | Gellir ymestyn y gweithgaredd yma trwy baru nifer smotiau gyda'r rhif cywir.<br><br>I greu gweithgaredd mwy heriol, beth am ei wneud heb fod y dysgwyr yn gallu gweld y rhif ar dop y cerdyn gyda'r smotiau?<br>Gellir addasu'r gweithgaredd ar gyfer chwarae Bingo hefyd - rhaid gosod y peli / cownteri ar y rhif, yn hytrach na chroesi'r rhif pan fydd yn cael ei alw. |

